***CYNGOR BWRDEISTREF SIROL***
# *RHONDDA CYNON TAF*
**COUNTY BOROUGH COUNCIL**

## GWŶS I GYFARFOD PWYLLGOR

C Hanagan
Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau
Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach, CF40 2XX

Dolen gyswllt**:** Kate Spence - Gwasanaethau Democrataidd (07747485566)

Bydd cyfarfod rhithwir o'r **Pwyllgor Cynllunio a Datblygu** yn cael ei gynnal ar **DYDD IAU, 17EG MAWRTH, 2022** am **3.00 PM.**

MAE MODD I AELODAU NAD YDYN NHW'N AELODAU O'R PWYLLGOR AC AELODAU O'R CYHOEDD OFYN I ANNERCH Y PWYLLGOR YN YSTOD Y CYFARFOD SY'N YMWNEUD Â'R MATER SYDD WEDI'I NODI. RYDYN NI'N GOFYN EICH BOD CHI'N RHOI GWYBOD AM EICH BWRIAD I SIARAD DRWY E-BOSTIO **GWASANAETHAUCYNLLUNIO@RCTCBC.GOV.UK** ERBYN 5PM AR DYDD MAWRTH, 15 MAWRTH 2022, GAN NODI A FYDDWCH CHI'N SIARAD YN GYMRAEG NEU'N SAESNEG.

MAE'N BOSIB BYDD TREFN YR AGENDA'N NEWID ER MWYN HWYLUSO BUSNES Y PWYLLGOR.

## AGENDA

**Tudalennau**

### 1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â'r Cod Ymddygiad.

**Nodwch:**

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

**2. DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU**

Nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu materion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

**3. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015**

Nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

**4. COFNODION 10.02.22**

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 10 Chwefror 2022.

**5 - 8**

**CEISIADAU A ARGYMHELLIR AR GYFER EU CYMERADWYO GAN Y CYFARWYDDWR MATERION FFYNIANT A DATBLYGU**

**5. CAIS RHIF: 20/0932**

Cais i gadw ac ymestyn yr adeilad gweithdy presennol, estyniad ôl-weithredol i'r adeilad swyddfa presennol, adleoli ardal golchi cerbydau dan do, pympiau tanwydd a thanciau dŵr, estyniad i'r maes parcio presennol i staff/cwsmeriaid, porthdy newydd, codi ffens acwstig a gwaith cysylltiedig (derbyniwyd Strategaeth Ddraenio ddiwygiedig ar 07/10/21, derbyniwyd Cynllun Lleoliad Safle diwygiedig, Cynllun Gosodiad y Safle Arfaethedig, manylion ffens acwstig ac Asesiad Effaith Sŵn ar 20/12/21). **UNED 16 EARTHMOVERS HOUSE, PARC BUSNES LLANTRISANT, LLANTRISANT, PONT-Y-CLUN, CF72 8LF**

**9 - 40**

**6. CAIS RHIF: 20/1307**

Byngalo ar wahân (Amlinellol) - Asesiad Risg Cloddio Glo wedi'i dderbyn 18/03/2021. **TIR Y TU ÔL I SŴN Y FRO, HEOL GELLIFEDI, BRYNNA**

**41 - 54**

**7. CAIS RHIF: 21/1237**

Newid defnydd o westy, siop cludfwyd a bar/bwyty i gartref gofal preswyl C2, gyda gwaith thirlunio a mynedfa gysylltiedig. (Derbyniwyd Adroddiad Ansawdd Aer ar 10 Ionawr 2022) **DIAMOND JUBILEE HOTEL, HEOL Y DWYRAIN, TYLORSTOWN, CF43 3HE**

**55 - 66**

**8. CAIS RHIF: 21/1601**

Bwriad i ddymchwel yr adeiladau ysgol presennol ac ailddatblygu'r safle i ddarparu datblygiad preswyl o 18 o anheddau a gwaith cysylltiedig. (Derbyniwyd Gwerthusiad Ecolegol Rhagarweiniol (PEA) wedi'i ddiweddaru; wynebau diwygiedig ar gyfer lleiniau 1, 2 ac 17 gan gynnwys cwpanau ar gyfer gwenoliaid y bondo; a Chynllun Ymchwilio Ysgrifenedig ar gyfer cofnodi adeiladau hanesyddol, ar 17 Ionawr 2022. Derbyniwyd cynllun safle diwygiedig, i ledu llwybr troed a newid graddiant, wedi'i dderbyn ar 15 Chwefror 2022) **TIR YN HEN YSGOL GYNRADD GYMRAEG TONYREFAIL, STRYD YR YSGOL, TONYREFAIL, PORTH, CF39 8LE**

**67 - 84**

**9. CAIS RHIF: 21/1613**

Datblygu cynllun solar a seilwaith cysylltiedig. (Derbyniwyd y Datganiad Drilio Ceblau ar 20 Ionawr 2022) **TIR AR FFERM RHIWFELIN FACH, HEOL LLANTRISANT, YNYSMAERDY, LLANTRISANT, PONT-Y-CLUN, CF72 8LQ**

**85 - 98**

**10. CAIS RHIF: 22/0088**

Adeiladu garej sengl. **TIR GER 16 TERAS BRYNHEULOG, TYLORSTOWN, GLYNRHEDYNOG**

**99 - 106**

**<u>ARGYMHELLION I'W GWRTHOD GAN Y CYFARWYDDWR MATERION FFYNIANT A DATBLYGU</u>**

**11. CAIS RHIF: 22/0004**

Annedd sengl newydd 4 ystafell wely. **TIR Y TU ÔL I 1 HEOL LLWYNFEN, PONT-Y-CLUN, CF72 0TW.**

**107 - 114**

**<u>ADRODDIAD ER GWYBODAETH</u>**

**12. GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

Rhoi gwybod i Aelodau am y canlynol, ar gyfer y cyfnod 28/02/2022 – 04/03/2022.

Penderfyniadau Cynllunio a Gorfodi – Apeliadau a Dderbyniwyd.
Penderfyniadau Dirprwyedig – Ceisiadau wedi'u cymeradwyo a'u

gwrthod gyda rhesymau.
Trosolwg o Achosion Gorfodi.
Penderfyniadau Gorfodi Dirprwyedig.

**115 - 122**

**13. MATERION BRYS**

Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Cadeirydd, yn rhai brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

**Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu**

**Cylchrediad: -**

**Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu:**

Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Materion Rheoli Datblygu
(Y Cynghorydd S Rees a Y Cynghorydd R Williams)

Y Cynghorydd J Barton, Y Cynghorydd D Grehan, Y Cynghorydd G Hughes,
Y Cynghorydd P Jarman, Y Cynghorydd W Lewis, Y Cynghorydd W Owen,
Y Cynghorydd S Powderhill, Y Cynghorydd J Williams ac Y Cynghorydd D Williams

Pennaeth Cynllunio
Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu
Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol
Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi
Uwch Beiriannydd